
rspb Cymru

yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru

In Partnership with Welsh Government



# PECYN CYMORTH AR GYFER GWEITHREDU

MAE'R PECYN CYMORTH HWN YN NODI'R CAMAU NESAF POSIB I RSPB CYMRU EU CYMRYD I DDATBLYGU EU RHAN YN Y GWASANAETH NATUR CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG

JO MCGREAL & JACKY COX CONSULTANCY

# Tabl Cynnwys

**RHAN I: Dangos y cysylltiadau achosol rhwng rhwng mewnbynnau, gweithredoedd a chanlyniadau a ddymunir ........... 2**

Meithrin cymuned waith amrywiol ac egnïol sydd, yn ei dro, yn buddsoddi mewn natur ........ 3

Ymgysylltu ac annog eraill i weld y llwybrau at gymryd rhan ........ 4

Dangos sut mae'r sefydliad yn rhoi gwerth ar ddysgu a datblygu ........ 5

**RHAN II: Llwybrau a Phartneriaethau ........ 5**

Codi Ymwybyddiaeth ........ **Error! Bookmark not defined.**

Dyfnhau Dealltwriaeth, Ymgysylltiad ac Ymwneud ........ 12

Cynyddu Cyfleoedd ........ **Error! Bookmark not defined.**

**RHAN III: Cynllun Gweithredu ........ 18**

Cynllun Gweithredu Sampl RSPB Cymru ........ 19

## RHAN I: Dangos y cysylltiadau achosol rhwng mewnbynnau, gweithredoedd a chanlyniadau a ddymunir

Er ei bod yn amlwg bod angen creu swyddi i'r dyfodol, ni welwyd unrhyw dystiolaeth na all y rolau hynny sy'n berthnasol i RSPB Cymru gael eu llenwi gan unigolion cymwys, profiadol sy'n ysu i weithio yn y sector. O'r herwydd, rydyn ni'n dadlau bod prinder sgiliau o fewn RSPB Cymru nawr neu yn y dyfodol. Yn hytrach, awgrymwn fod yna brinder rolau a swyddi y gall ystod amrywiol o bobl gael mynediad iddyn nhw.

**Rydyn ni'n argymell bod RSPB Cymru yn:**

- Dadansoddi'r gwaith natur ar gyfer y presennol a'r dyfodol ac adeiladu swyddi sy'n bodloni gofynion mynediad a phrofiad
- Nodi rolau sydd eu hangen i gefnogi a datblygu'r sefydliad yn fewnol; rolau newydd fydd y rhain. Er na fydd y rolau hyn yn effeithio ar natur ar unwaith (h.y. nid ydyn nhw'n rolau cadwraeth penodol) byddan nhw'n cael effaith hirdymor ar yr hyn sy'n bosibl ar gyfer byd natur.

Mae'r modelau rhesymeg canlynol yn dangos y potensial ar effaith hirdymor o ran yr hyn sy'n bosib ar gyfer natur.

Os gwnawn ni… → Erbyn… → Byddwn yn…

## Meithrin cymuned waith amrywiol ac egnïol sydd, yn ei dro, yn buddsoddi mewn natur

Buddsoddi mewn pobl fel ateb i'r argyfwng presennol → Creu llwybrau clir - o lwybrau mynediad i bobl ifanc hyd at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn gyffredinol → Cydnabod a gwerthfawrogi sgil mentora, hyfforddi a rheoli eraill er mwyn ddatblygu a rhagori → Meithrin cymuned waith amrywiol ac egnïol sydd, yn ei dro, yn buddsoddi mewn natur

### Camau Gweithredu Byr Dymor

- Creu rôl (au) i recriwtio a chefnogi pobl ifanc i RSPB Cymru
- Datblygu cynllun cymorth mewnol i adrannau i reoli a chefnogi pobl ifanc yn y rôl
- Datblygu naratif clir ar yr angen am gynlluniau datblygu a'u manteision, ymddygiadau sy'n meithrin ac yn cefnogi, fel hyfforddi a mentora

### Camau Gweithredu Tymor Canolig/Hir

- Nodi llwybrau dilyniant clir drwy'r sefydliad sy'n cynnig cyflogaeth tymor hwy i bobl ifanc
- Nodi llwybrau dilyniant clir drwy'r sefydliad sy'n cefnogi, yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y gallu i reoli ac arwain pobl

## Ymgysylltu ac annog eraill i weld y llwybrau at gymryd rhan

Presenoldeb gweithredol mewn cymunedau lleol → Gweithio gyda chymunedau a datbygu rhaglenni sy'n seiliedig ar natur y tu allan i'r meysydd gwaith traddodiadol → Cefnogi a chael mynediad at gyfleoedd cyfredol i hyrwyddo stori/rôl yr RSPB a chadwraeth natur y tu hwnt i'r llwybrau traddodiadol → Meithrin perthnasoedd gyda sefydliadau porthor a'r rheini sy'n cefnogi pobl ifanc → Codi proffil y gwaith; hyrwyddo cyfleoedd; ymgysylltu ac annog eraill i weld y llwybrau i gymryd rhan

### Camau Gweithredu Byr Dymor

- Creu rôl(au) sy'n gweithio'n egnïol mewn lleoliadau gwahanol a gyda lleoliadau gwahanol
- Datblygu strategaeth recriwtio a hyrwyddo e.e. gweithio gyda Gyrfa Cymru i fynychu digwyddiadau ysgogi; cefnogi staff i werthfawrogi a chydnabod y budd o gefnogi cyrsiau sy'n bodoli'n barod e.e. Coleg y Mynydd Du, eistedd ar fyrddau cyflogwyr ar gyfer cyrsiau coleg perthnasol ar draws Cymru

### Camau Gweithredu Tymor Canolig/Hir

- Datblygu rhaglen gyda gwahanol bwyntiau mynediad i'r sefydliad, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wirfoddoli, rhaglenni haf byr dymor, lleoliadau gwaith, secondiad o ddiwydiannau eraill, secondiad i ddiwydiannau eraill, prentisiaethau

## Dangos sut mae’r sefydliad yn rhoi gwerth ar ddysgu a datblygu

1. Cynnig proses recriwtio sy'n fwy cynhwysol
2. Seilio gofynion rôl lefel mynediad ar agwedd a pharodrwydd i ddysgu
3. Egluro'r gwerth sy'n cael ei roi ar ddysgu yn y gwaith
4. Creu naratif/stori o'r bobl sy'n rhan o'r sefydliad ac yn gwneud gwahaniaeth i fyd natur
5. Ehangu'r gynulleidfa i allu cymhwyso a dangos sut mae'r sefydliad yn rhoi gwerth ar ddysgu a datblygu

## Camau Gweithredu Byr Dymor

- Datblygu'r broses recriwtio, gan amlinellu'n glir y gwahaniaeth rhwng ymgeiswyr hyfforddiant/lefel mynediad, lefel gradd a lefel brofiadol
- Neilltuo rolau lefel mynediad i'r rheini sydd heb unrhyw brofiad neu gymhwyster neu heb lawer o brofiad neu gymwysterau
- Darparu ffyrdd eraill o wneud cais e.e. ffilm fer sy'n egluro pam maen nhw'n gwneud cais;
- Datblygu proses gyfweld i gefnogi pobl i wneud yn dda e.e. anfon cwestiynau ymlaen llaw, creu lleoliad cyfweld mwy anffurfiol

## RHAN II: Llwybrau a Phartneriaethau

Mae angen amlwg i ddatblygu llwybrau i'r sefydliad a'r sector, ac er ein bod yn cydnabod y gall fod awydd i ddarparu ystod eang o rolau a chyfleoedd ar unwaith drwy gynlluniau fel Kickstart, rydyn ni'n cwestiynu'r budd tymor hwy. Er y gallai gwneud hynny fod o fudd i amrywiaeth y sefydliad yn y byr dymor, heb rolau a chyfleoedd dilynol, mae'r effaith hirdymor yn debygol o fod yn brin i'r sefydliad, natur a phobl ifanc eu hunain. Mae profiad diweddar ar draws y sefydliad wrth recriwtio rolau Kickstart hefyd yn dangos yn nad yw sicrhau'r rolau yn unig yn ddigon. Rydyn ni'n argymell dull mwy cynaliadwy sy'n meithrin gallu, cymorth, cyfleoedd ac sy'n datblygu perthnasoedd cymunedol yn raddol ac ar yr un pryd.

**Rydyn ni'n argymell:**

- 1+ rôl partneriaeth a datblygu yng Nghymru i gefnogi'r broses o greu rolau lefel mynediad, parodrwydd sefydliadol a meithrin perthnasoedd
- Cynyddu'n raddol nifer y rolau Kickstart yng Nghymru (gan ddechrau gyda pump ychwanegol wedi'u neilltuo i bobl ifanc sydd heb lawer o gymwysterau a/neu brofiad yn y flwyddyn gyntaf i gyd-fynd â'r pedwar rôl sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Gellid gwneud hyn drwy asiantaethau cymorth eraill fel Ymddiriedolaeth y Tywysog, Gyrfa Cymru neu CGGC)
- Datblygiad neu lwybr dilyniant clir i bobl ifanc sy'n cysylltu Kickstart gyda phrentisiaethau ac yn cynnig cyfweliadau am swyddi sydd wedi'u neilltuo
- Cynnig rolau prentisiaeth ychwanegol mewn adrannau y tu hwnt i Wasanaethau Technoleg (pedwar yn y flwyddyn gyntaf).

Mae enghraifft o hynny i'w gweld isod. Mae tair ffordd wahanol y gall RSPB Cymru a'r GNC osod y sylfeini ac adeiladu llwybrau i wella dealltwriaeth o'r swyddi o fewn y sector natur a chreu mynediad iddyn nhw. Mae'r rhain yn rhyng-gysylltiedig ac mae llwyddiant un yn dibynnu ar weithrediad y lleill. Rydyn ni wedi cynnwys enghreifftiau o sefydliadau yng Nghymru y gallai RSPB Cymru weithio â nhw fel ffordd o ddangos pob agwedd a thynnu sylw at y buddion:

## Codi Ymwybyddiaeth

### Beth

- Mae cyfleoedd sylweddol ac angen amlwg i gynyddu ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd i weithio mewn rolau cadwraeth uniongyrchol ac mewn gwasanaethau cymorth i bobl ifanc. Mae'r ymchwil hwn wedi dangos bod diffyg gwybodaeth am y sector - beth mae'n ei wneud, ehangder y gwaith, sut i gymryd rhan. Ychydig iawn o ddealltwriaeth, os o gwbl, oedd gan y bobl ifanc y buom yn siarad â nhw o'r hyn sy'n cael ei olygu gan 'swyddi gwyrdd' neu 'swyddi yn y sector natur'. Lle bo gwybodaeth, mae hyn yn debygol o ganlyniad i blentyndod lle cafodd natur ei ystyried yn bwysig i rieni/gofalwyr. Nid yw'r cyfleoedd sy'n bodoli i fagu profiad a hyfforddiant yn y sector hwn, er enghraifft drwy Kickstart neu brentisiaethau, yn hawdd dod o hyd iddyn nhw, ac o gymharu â diwydiannau eraill, ceir diffyg amlwg o ran lleoliadau.

## Sut


- Codi ymwybyddiaeth drwy ysgolion, colegau, clybiau, grwpiau a gwasanaethau ieuenctid, y gymuned leol. Gellir gwneud hyn drwy ymgysylltu â phrosiectau'r gymuned leol; mynychu digwyddiadau gyrfaoedd; darparu siaradwyr gwadd; cyfrannu at y cwricwlwm; datblygu perthnasoedd uniongyrchol gyda grwpiau ieuenctid; gweithio gyda phobl ifanc i gynllunio cyfleoedd; tasgau gwirfoddoli untro (yn gysylltiedig â llwybr ar gyfer darganfod mwy o ffyrdd i gymryd rhan).

## Enghraifft 1 - Coleg Caerdydd a'r Fro, Tîm Gyrfaoedd a Syniadau

Dolen i'r wefan

Datblygu perthynas leol gydag athrawon a phobl ifanc; cynyddu ymwybyddiaeth o'r achos/ymgysylltu â darpar gefnogwyr; cynyddu dealltwriaeth o ehangder y swyddi / ffyrdd o gymryd rhan gyda sefydliadau natur

Dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd am swyddi/ beth mae'r sector natur yn gallu ei gynnig / llwybrau i mewn; dealltwriaeth o'r gwaith maen nhw'n gallu ei wneud i gefnogi'r amgylchedd; adeiladu perthynas gyda darpar gyflogwr/gyflogwyr




Gwell dealltwriaeth a chefnogaeth i
achosion sy'n seiliedig ar natur ac ymgysylltiad cynharach


Mwy o ymwybyddiaeth / mynediad i farchnad swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc a allai fod yn ddi-waith fel arall

# Enghraifft 2 - Gyrfa Cymru

Dolen i'r wefan

Datblygu perthynas gyda Gyrfa Cymru ac ysgolion: cynyddu ymwybyddiaeth o'r achos / ymgysylltu â darpar gefnogwyr; cynyddu dealltwriaeth o ehangder y swyddi / ffyrdd o gymryd rhan gyda sefydliadau natur

Dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd am swyddi/ beth mae'r sector natur yn gallu ei gynnig / llwybrau i mewn; dealltwriaeth o'r gwaith maen nhw'n gallu ei wneud i gefnogi'r amgylchedd; adeiladu perthynas gyda darpar gyflogwr/gyflogwyr




Gwell dealltwriaeth a chefnogaeth i achosion sy'n seiliedig ar natur ac ymgysylltiad cynharach


Mwy o ymwybyddiaeth / mynediad i farchnad swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc a allai fod yn ddi-waith fel arall

# Enghraifft 3 - Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig (EYST)

Dolen i'r wefan

Deall anghenion pobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd â'r Saesneg fel ail iaith; cynyddu ymwybyddiaeth o'r achos / ymgysylltu â darpar gefnogwyr; cynyddu dealltwriaeth o ehangder y swyddi / ffyrdd o gymryd rhan gyda sefydliadau natur

Dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd am swyddi/ beth mae'r sector natur yn gallu ei gynnig / llwybrau i mewn; dealltwriaeth o'r gwaith maen nhw'n gallu ei wneud i gefnogi'r amgylchedd; adeiladu perthynas gyda darpar gyflogwr/gyflogwyr




Gwell dealltwriaeth a chefnogaeth i achosion sy'n seiliedig ar natur ac ymgysylltiad cynharach

Mwy o ymwybyddiaeth / mynediad i farchnad swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc a allai fod yn ddi-waith fel arall

## Dyfnhau Dealltwriaeth, Ymgysylltiad ac Ymwneud

### Beth

- Ar ôl codi ymwybyddiaeth, mae angen ymgysylltu parhaus a llwybr clir i gymryd rhan er mwyn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o’r sector a’r cyfleoedd.

### Sut


- Drwy ddarparu lleoliadau gwaith; hyfforddeiaethau; cyflwyno cyrsiau; ehangu cyfranogiad a chefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth gymunedol prosiectau lleol. Cyfleoedd gwirfoddoli lleol, hyblyg.

# Enghraifft 4 - Cynon Valley Organic Adventures

Dolen i'r wefan

Model da o fentora, cefnogi, hyfforddi pobl ifanc na fyddai'n cael mynediad at waith sy'n seiliedig ar natur fel arall.
Potensial i weithio mewn partneriaeth i greu llwybr at waith.
Grŵp mwy amrywiol o bobl ifanc na'r rhai sy'n cael swyddi fel arfer yn y sector hwn.

Llwybrau clir i gyflogaeth reolaidd; mynediad at swyddi a allai fod y tu hwnt i gyrraedd yn draddodiadol.




Cynnwys demograffeg newydd o gefnogwyr sydd â chysylltiadau gyda chymunedau lleol, gan helpu i ehangu'r ddealltwriaeth i gynulleidfa newydd.


Mwy o gyfleoedd gwaith a dilyniant gyrfa i bobl ifanc sy'n draddodiadol yn cael trafferth cael mynediad at lwybrau gyrfa

# Enghraifft 5 - Coleg y Mynydd Du

Dolen i'r wefan

Datblygu perthynas â'r coleg a'i fyfyrwyr; cyfle i gysylltu dysgu gydag anghenion y gweithle a gweithio gyda myfyrwyr i nodi anghenion cymorth

Llwybr o hyfforddiant at gyflogaeth, cyfle i gyfrannu at ddatblygu cyrsiau




Dull cydgysylltiedig, datblygu sgiliau, cynyddu gwybodaeth a chefnogaeth i natur

Creu swyddi / cyfleoedd cyflogaeth

## Cynyddu Cyfleoedd

### Beth

- Ceir potensial i gynyddu nifer y lleoliadau sy'n cael eu cynnig, ond gyda hynny, mae angen dod â chyfleoedd i gymryd y cam nesaf at gyflogaeth barhaol. Gan gydweithio ar draws GNC, gallai sefydliadau greu rhwydwaith o gyfleoedd.

### Sut


- Drwy gynyddu lleoliadau Kickstart ar draws adrannau; ehangu'r rhaglen bresntisiaethau; interiaethau â thâl; creu lefel mynediad penodol, swyddi lle nad oes angen profiad gyda chefnogaeth; cael eglurder ar ‘beth nesaf’ gyda chysylltiadau hawdd ar draws/ mynediad i holl sefydliadau'r GNC, y bydd pob un ohonyn nhw'n cynnig yr ystod yma o gyfleoedd.

# Enghraifft 6 - Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru

Dolen i'r wefan

Helpu i ddod o hyd i bobl ifanc ar gyfer lleoliadau gyda chefnogaeth i ddatblygu sgiliau

Mynediad i leoliadau Kickstart â thâl gyda chefnogaeth darparwr yn y sector sydd heb gynnig llawer o gyfleoedd yn y gorffennol




Cynyddu sgiliau a gwybodaeth mwy o bobl ifanc / datblygu'r 'genhedlaeth nesaf' o bobl sy'n gallu gofalu am fyd natur


Mwy o gyfleoedd gwaith a dilyniant gyrfa i bobl ifanc sy'n draddodiadol yn cael trafferth cael mynediad at lwybrau gyrfa

# Enghraifft 7 - Hyfforddiant Gogledd Cymru

Dolen i'r wefan

Mae meithrin perthnasoedd gyda darparwyr yn gam hanfodol i sicrhau bod lleoliadau wedi cael eu hystyried yn ofalus ac yn diwallu anghenion y person ifanc a'r sefydliad

Mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant hyd at 18 mis, gyda chefnogaeth a chymhwyster. Mynediad posib at gyflogaeth barhaol ar ddiwedd y brentisiaeth.




Cynyddu sgiliau a gwybodaeth mwy o bobl ifanc / datblygu'r 'genhedlaeth nesaf' o bobl sy'n gallu gofalu am fyd natur

Llai o ddiweithdra,
datblygu sgiliau,
mynediad at gyflogaeth,
creu swyddi,
gweithlu â sgiliau uwch
gyda sgiliau trosglwyddadwy.



## RHAN III: Cynllun Gweithredu

Mae hyn yn dilyn enghraifft o gynllun gweithredu. Bydd angen ymrwymiad y sefydliad i gefnogi ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. O ran gwaddol tymor hwy, mae angen elfen o newid sefydliadol a blaenoriaethu ethos dysgu, datblygu a gwerthfawrogi rheolaeth gefnogol. Efallai y bydd hyn yn gofyn am newid er mwyn i natur fod yn flaenoriaeth gyfochrog yn hytrach na phrif flaenoriaeth yn y lle cyntaf ond bydd yn cynnig buddion tymor hwy ar draws y sector.

Ar Unwaith [2021] → Tymor Canolig [2022 - 2023] → Hirdymor [2023]

# RSPB Cymru: Cynllun Gweithredu Enghreifftiol

